**SYLWADAU AC YMATEBION YN DILYN SESIYNAU YMGYNGHORI DYSGWYR AR Y POLISI CLUDIANT ADDYSG DRAFFT**

**Addysg Ôl-16 - Grŵp Llandrillo Menai**

**a) Sylwadau Dysgwyr Safle Parc Menai, Bangor.**

1. Thema: Lleoliad y cwrs

<table>
<tr><th>CYF</th><th>SYLW</th><th>YMATEB Y CYNGOR</th></tr>
<tr><td>1.1a</td><td>“Er bod y safle sydd agosaf i mi yn darparu’r pwnc, nid yw yn darparu lefel 1 yn y pwnc honno – sut bydd y coleg yn delio gyda hyn gan fod pob cwrs gyda gofynion mynediad a bydd modd astudio ar y cwrs sydd yn addas i lwyddiant fy nghymwysterau?”</td><td rowspan="2">Mae’r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae’r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i’r ysgol neu goleg agosaf sy’n darparu’r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda’r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.<br><br>Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.</td></tr>
<tr><td>1.2a</td><td>“Mae myfyrwyr o Ddolgellau yn hapus i deithio i Fangor am hyd at 2 awr bob dydd oherwydd eu bod wir eisiau astudio cwrs yno oherwydd cyfleusterau ac adnoddau, ac wedi ymrwymo ac yn ymroddedig i gwblhau’r cwrs – mae’n bwysig iawn gallu cwblhau’r cwrs o’ch dewis, o ran pwnc a lleoliad. ”</td></tr>
</table>

2. Thema: Costau Cludiant

<table>
<tr><th>CYF</th><th>SYLW</th><th>YMATEB Y CYNGOR</th></tr>
<tr><td>2.1a</td><td>“I fyfyrwyr dros 19 oed, mae llawer o fyfyrwyr ESOL yn y coleg dros 19 oed, a byddent yn cael hi yn anodd talu am gludiant coleg os oes angen”</td><td rowspan="2">Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau cludiant.<br><br>Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â’r meini prawf perthnasol.</td></tr>
<tr><td>2.2a</td><td>“Mae costau byw yn cynyddu ac yn gwneud pethau’n anoddach i fyfyrwyr dros 19 oed, ac mae hi hefyd yn anoddach dod o hyd i waith i helpu dalu am costau cludiant.”</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>2.3a</td><td>“..i rai myfyrwyr sy’n teithio yma, byddai’n cymeryd mwy o amser a sawl blwyddyn iddynt gyflawni eu cymwysterau Lefel 1,2 a 3. Mae hyn yn anheg ar y rhai sydd o bosib yn am gymeryd mwy o amser i gyrraedd eu potensial.”</td><td rowspan="3">Er hyn, mae’r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.</td></tr>
<tr><td>2.4a</td><td>“Gall cost cludiant cyhoeddus fod yn ddrud os oes rhaid talu am deithio a dychwelyd pob dydd, gall teithio fod yn £7 bob ffordd, byddai hyn yn gwneud hi’n anodd i rhai myfyrwyr allu mynychu.”</td></tr>
<tr><td>2.5a</td><td>“Faint fydd y costau wedyn? Fydd o yr un peth a chostau gwasanaeth bysus cyhoeddus?</td></tr>
<tr><td>2.6a</td><td>“Gall EMA helpu tuag at gost teithio ond nid yw’n gadael llawer o arian ar ôl tuag at gostau eraill.”</td><td>Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau teithio, yng nghyd-destun dysgwyr sy’n manteisio ar Lwfans Cynhaliaeth Addysg fel cymorth.<br><br>Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â’r meini prawf perthnasol.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy’n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru.</td></tr>
</table>

3. Thema: Oedran

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 3.1a | “I fyfyrwyr dros 19 oed, mae llawer o fyfyrwyr ESOL yn y coleg dros 19 oed, a byddent yn cael hi yn anodd talu am gludiant coleg os oes angen” | Mae’r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.2a | "Mae costau byw yn cynyddu ac yn gwneud pethau'n anoddach i fyfyrwyr dros 19 oed, ac mae hi hefyd yn anoddach dod o hyd i waith i helpu dalu am costau cludiant." | Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol.<br><br>Er hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |
| 3.3a | "..i rai myfyrwyr sy'n teithio yma, byddai'n cymeryd mwy o amser a sawl blwyddyn iddynt gyflawni eu cymwysterau Lefel 1,2 a 3. Mae hyn yn anheg ar y rhai sydd o bosib yn am gymeryd mwy o amser i gyrraedd eu potensial." | |
| 3.4a | "Mae myfyrwyr coleg yn mynd yn hynach ac felly byddai canran uwch o fyfyrwyr ddim yn gymwys i gludiant." | Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft.<br><br>Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol.<br><br>Er hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr.<br><br>Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |

**b) Sylwadau Dysgwyr Coleg Meirion-Dwyfor Safle Dolgellau**

1. <u>Thema: Lleoliad y cwrs</u>

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 1.1b | "..yn astudio adeiladwaith ar y funud ac ym byw yn ardal Ffestiniog ac yn mwynhau y cwrs. Cynigir yr un cwrs yn safle Llandrillo Yn Rhos hefyd sydd yn agosach i'm cartref….ond hoffwn aros yn Nolgellau i astudio." | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, gan barhau gyda'i astudiaethau yn Nolgellau. Mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf yng Ngwynedd a Môn sy'n darparu'r cwrs. |
| 1.2b | "wedi gadael yr ysgol uwchradd leol oherwydd ddiffyg perthynas gyda staff a dim ffrindiau ac yn mynychu'r coleg yn lle hynny, ac felly gan fod y bws yn rhedeg beth bynnag, ni ddylwn edrych ar dalu am y cludiant gan mai'r coleg sydd yn addas i mi bellach.." | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.<br><br>Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |
| 1.3b | "bu'n rhaid i mi astudio lefel A yn y coleg yn lle'r ysgol agosaf gan bod o leiaf dau o'r cyrsiau a gynhigiwyd yn yr ysgol yn cael eu cyflwyno yn uniaith Saesneg, felly ddim yn addas i'm anghenion ieithyddol." | |
| 1.4b | "Tydi darpariaeth neu ddewis o bynciau a cholofnau yn yr ysgol leol ddim bob amser yn addas…ac y bydd yr amserlen a dewisiadau yn y coleg yn amlygu'n fwy addas, ac felly sut byddai hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth cludiant?" | |
| 1.5b | "oes modd ystyried radiws o gwmpas y cyfeiriad er mwyn cyfleu opsiwn 1, 2 a 3 ar gyfer dewisiadau cyrsiau?" | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu ystyried dewisiadau o ran cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac ar ffurf opsiynau yng nghyd-destun cymhwysedd cludiant. Mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.<br><br>Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.<br><br>Byddai modd cysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol, os yw darpariaeth cludiant yn debygol o hwyluso dewisiadau'r dysgwyr. |

2. Thema: Dysgwyr gydag ADY

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 2.1b | "Dysgwyr sydd wedi ein cyrraedd o Ysgol Arbennig Hafod Lon yn teimlo sicrwydd wrth barhau i fewn i Addysg Bellach gyda'u cyd-ddysgwyr, yn gam mawr ac anodd." | Mae'r cyngor yn nodi'r sylwadau cadarnhaol ac yn derbyn bod prosesau mewn lle i hwyluso'r broses o gefnogi dysgwyr gydag ADY wrth iddynt drosglwyddo i Ysgol Arbennig i goleg addysg bellach. |
| 2.2b | "Bydd rhai myfyrwyr o Benrhyn Llyn yn gorfod teithio i safle Glynllifon ac nid yw dewisiadau cwrs yno pob tro yn ffafrio addysg arbennig" | Mae'r Cyngor yn nodi sylwadau'r ymgynghorai ynglŷn ag addasrwydd pob cwrs yn safle Glynllifon i ddysgwyr gydag ADY. |

3. Thema: Newid Cyfeiriad

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 3.1b | "Wedi symud cyfeiriad gartref yn ystod y flwyddyn – sut fydd hyn yn amharu ar fy astudiaethau? | Byddai'r polisi newydd yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau newid cyfeiriad er mwyn hwyluso gallu dysgwyr sydd eisoes wedi cychwyn cwrs ac yn symud tŷ yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol i barhau i dderbyn cludiant tan diwedd y flwyddyn honno. |

**c) Sylwadau Dysgwyr Coleg Meirion Dwyfor Safle Glynllifon**

1. Thema: Lleoliad y cwrs

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 1.1c | "Oherwydd rhesymau personol yn sgil bwlio yn fy ysgol, wedi gorfod mynychu coleg pellach i ffwrdd, nid yr un agosaf, gan fod yr un criw a oedd yn bwlio yn mynychu'r coleg agosaf hefyd ac yn sgil hyn, wedi gwneud cwrs pellach mewn safle arall. Sut byddwch yn delio ac ystyriaethau or fath gyda'r polisi cludiant newydd? | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.<br><br>Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.<br><br>Byddai modd cysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol. |
| 1.2c | "mae ansawdd y cyfleusterau a'r profiadau a gynigir yn y coleg yma yn werthfawr iawn i mi, er ei fod yn bellach i ffwrdd nag un tebyg, ac o bosib yn rhoi gwell cyfleoedd gwaith i mi ar ôl cwblhau'r cwrs, a ydych yn ystyried hyn?" | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, (yng Ngwynedd a Môn). Mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |
| 1.3c | "ar ba adeg o'r flwyddyn y byddai penderfyniadau ynghylch a yw dysgwyr yn gymwys a'i peidio yn digwydd – gall arwain ar ddewis myfyrwyr o gwrs a choleg addas." | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu ystyried dewisiadau o ran cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac yng nghyd-destun cymhwysedd cludiant. Mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, ac mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol.<br><br>Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.<br><br>Byddai modd cysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol, os yw darpariaeth cludiant yn debygol o hwyluso neu gadarnhau dewisiadau'r dysgwyr. |

2. <u>Thema: Costau Cludiant</u>

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 2.1c | "petai cyflwyno taliad tymhorol am docyn, yna ni fedrai fynychu y cwrs coleg wedyn, gan na fyddai yn medru fforddio unrhyw daliad, ac o bosib yn golygu na fyddai sawl dysgwr yn medru mynychu'r coleg wedyn gan golli allan ar addysg bellach." | Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch costau teithio,<br><br>Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant am ddim, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn rhoi cymorth ariannol i ddysgwyr gyda chostau megis cludiant i addysg ôl-16.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |
| 2.2c | "os fyddai'n rhaid i ddysgwyr dalu, ac eisiau dal bws coleg, sut fyddent yn talu gan nad oes modd talu yn ddyddiol ar fws coleg fel sy'n bosib ar fws cyhoeddus?" | Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch dulliau talu a fws coleg.<br><br>Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu codi ffi ar rai elfennau o gludiant addysg ôl-16, byddai'r Cyngor yn rhoi trefniadau priodol mewn lle mewn ymateb i hynny gyda'r gweithredwyr cludiant. |

3. Thema: Oedran

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 3.1c | "mae dysgwyr heddiw efallai yn hwyrach yn mynd i'r coleg ac yn hynach na 19oed ac felly byddai unrhyw cap oedran yn golygu llai o fyfyrwyr i'r dyfodol, ac i'r coleg." | Mae'r Cyngor yn nodi pryderon yr ymgynghorai ynghylch diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn y Polisi Cludiant Addysg Drafft.<br><br>Lle bo dysgwyr yn gymwys i gael cludiant, darperir cludiant yn unol â'r meini prawf perthnasol.<br><br>Er hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod diffyg darpariaeth cludiant i ddysgwyr dros 19 oed yn debygol o effeithio ar rai dysgwyr.<br><br>Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

4. <u>Thema: Cludiant Cyhoeddus</u>

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 4.1c | "..os bydd yn rhaid talu am y cludiant, a fyddai hyn yn golygu fod bysiau yn rhedeg yn fwy aml ac ar amseroedd sydd yn siwtio amserlen y cwrs yn well? | Mae'r Cyngor yn nodi sylw'r ymgynghorai ynghylch rhagor o ddarpariaeth cludiant petai'n rhaid talu am gludiant addysg.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n rhaid cynnal asesiad o'r ddarpariaeth cludiant addysg a chludiant chyhoeddus er sicrhau fod yr amserlenni cludiant yn addas er mwyn galluogi dysgwyr i gyrraedd y lleoliad yn y bore, a dychwelyd yn y prynhawn. |
| 4.2c | " mae'r bws cyhoeddus yr ydw i yn ei ddefnyddio i fynychu'r coleg ond derbyn fy nhocyn ar amseroedd penodol a dim hyblygrwydd pan mae'r angen i fynd adref yn fuan neu'n sal neu gyda apwyntiad. Fydd hyn yn newid gyda'r polisi newydd? | |
| 4.3c | "mae'r bws cyhoeddus yr ydym ni yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn llawn ac yn aml byddwn yn gorfod sefyll am gyfnodau hir. A fyddwch yn ail edrych ar y trefniadau yn sgil dyfodiad y polisi newydd fel bod myfyrwyr Glynllifon yn medru defnyddio'r bws coleg yn unig?" | |

**d) Sylwadau Dysgwyr Coleg Meirion-Dwyfor Safle Pwllheli**

1. <u>Thema: Lleoliad y cwrs</u>

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 1.1d | "Nid yw'r dewisiadau a chyfleoedd ar gael ym mhob safle coleg ac felly tra bydd rhai safleoedd yn gyfleus, nid yw pob amser yn cynnig pob pwnc addas" | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, (yng Ngwynedd a Môn). Mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. |
| 1.2d | "bydd cylchoedd o ffrindiau yn cael eu gwahanu os byddent yn gorfod mynd i safleoedd colegau gwahanol....beth am llesiant oherwydd hyn? | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |

2. <u>Thema: Amserlenni Cludiant</u>

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| **2.2d** | "mae rhai myfyrwyr yn gorfod cychwyn am y coleg yn fuan iawn ac yn cyrraedd yn hwyr iawn… tybed a oes modd addasu amserlenni i gyfarch cysylltiadau gwell?" | Mae'r Cyngor yn nodi sylwadau'r ymgynghorai am amserlenni bysiau coleg a chludiant cyhoeddus.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n rhaid cynnal asesiad o'r ddarpariaeth cludiant addysg a chludiant chyhoeddus er sicrhau fod yr amserlenni cludiant yn addas er mwyn galluogi dysgwyr i gyrraedd y lleoliad yn y bore, a dychwelyd yn y prynhawn. |

**e) Sylwadau Dysgwyr Safle Llangefni**

1. <u>Thema: Lleoliad y cwrs</u>

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| 1.2e | "Nid yw'n deg gorfodi dysgwyr, gan y gall cyfyngu dewis golygu nad ydynt yn gallu astudio cwrs/lleoliad ac amharu ar eu dyfodol." | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis cwrs ôl-16 ar sail pwnc a lleoliad, ac mae'r Cyngor yn gefnogol i ddysgwyr ddewis cwrs ôl-16 sydd yn addas iddynt.<br><br>Er hynny, mae meini prawf y Polisi Cludiant Addysg Drafft yn nodi y darperir cludiant am ddim i ddysgwyr i'r ysgol neu goleg agosaf sy'n darparu'r cwrs, (yng Ngwynedd a Môn). Mae hyn yn gyson gyda'r meini prawf ar gyfer dysgwyr o oedran addysg statudol. |
| 1.3e | "Bydd hyn yn ein gorfodi i astudio Lefel A mewn lleoliad agosach ac yn effeithio ein dewisiadau pynciol all effeithio ein dewis o yrfa yn y dyfodol." | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Fy Nhocyn Teithio sy'n hwyluso a galluogi pobl ifanc 16-21 oed i deithio ar nifer o siwrneiau am £1 y dydd allai fod yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn dewis ysgol/coleg all-dalgylch.<br><br>Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a oedd yn rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad ar y Polisi Cludiant Addysg Drafft. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru. |

2. Thema: Cyfrifo pellter

| CYF | SYLW | YMATEB Y CYNGOR |
|---|---|---|
| **2.1e** | "Sut byddwch chi yn gwahaniaethu os ydwyf yn byw union 50% o'r amser gyda Mam, sydd yn agosach i un safle a 50% gyda Dad, sydd yn agosach i safle arall, beth fyddai'r sefyllfa?" | Mae'r Cyngor yn nodi dymuniad yr ymgynghorai i allu dewis teithio rhwng dau gyfeiriad rhiant. Mae'r Polisi Cludiant Addysg Drafft yn gwneud cynigion penodol yng nghyd-destun preswyliad deuol sydd yn cynnig eglurder yn y maes yma.<br><br>Byddai modd cysylltu gyda'r Adran Addysg i drafod sefyllfaoedd unigol, os yw darpariaeth cludiant yn debygol o hwyluso neu gadarnhau dewisiadau'r dysgwyr. |